



# Astudiaethau Achos Cewynnau Go Iawn - Ceredigion







# Cewynnau Go Iawn...

## yn gwneud amser newid y cewyn yn hwyl!

**Enw'r Rhieni: Rebecca & Peter Jones**
**Enw'r babi: Dewi**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Do, roedd y pecyn treialu yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn darparu nifer o wahanol fathau o gewynnau. Gwnaethom ni arbrofi gyda'r cewynnau i gyd cyn penderfynu pa fath oedd fwyaf addas ar ein cyfer, yna prynwyd mwy o gewynnau ar-lein. Penderfynon ni ddefnyddio'r cewynnau cyflawn sy'n addas o'r crud i'r poti gan eu bod yn sychu'n gyflym ar ôl eu golchi, ac yn hawdd i'w defnyddio, fel bod ein perthnasau ddim yn cael gormod o ffwdan wrth newid y cewynnau chwaith.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Dechreuon ni ddefnyddio Cewynnau Go Iawn yn gyfan gwbl pan oedd ein mab tua 6 wythnos oed (tua 10 pwys) – dyma'r adeg y dechreuodd y cewyn cyflawn ffitio'n well, ac erbyn hyn rydym wedi bod yn ei ddefnyddio ers tua 15 mis.

3. **Pam ydych chi yn ei ddefnyddio?**
   Rwy'n ystyriol iawn o'r effaith yr ydym yn ei gael ar yr amgylchedd. Rwy'n cofio gweld llun o'r cyfanswm o gewynnau tafladwy y mae baban yn eu defnyddio mewn cyfnod o flwyddyn o'i gymharu ag 20 cewyn go iawn. Mae'r ddelwedd hon wedi aros gyda mi, a chan ei fod yn cymryd tua 500 mlynedd i gewynnau tafladwy bydru, dwi'n teimlo yn awr nad ydym yn ychwanegu at y broblem.

   Dw i hefyd yn arbed arian gan nad wyf yn prynu cewynnau yn wythnosol, a bydd hi'n bosib i mi ddefnyddio'r cewynnau go iawn dwi eisoes wedi'u prynu petaswn i'n cael mwy o blant yn y dyfodol.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio?**
   Dw i'n dwlu ar y lluniau gwahanol y gallwch eu cael ar y cewynnau go iawn. Mae Dewi yn hoff o'i gewyn â llun deinosor (mae newid y cewyn yn gallu bod yn hwyl i'r ddau ohonom). Mae gan fy mab groen sensitif, a theimlaf fod ei groen yn well pan mae llai o gemegolion yn bresennol. Dw i wedi sylwi wrth iddo wisgo cewynnau go iawn ei fod yn llai tebygol o gael unrhyw frech a chosi poenus ar y croen.

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn?**
   Dw i'n cadw'r cewynnau brwnt mewn bwced ac yn eu golchi bob ychydig ddyddiau. Dw i'n defnyddio'r un powdr golchi "non-bio" yr wy'n ei ddefnyddio ar gyfer golchi popeth arall, ond dim ond hanner y powdwr ag yr argymhellir rwy'n ei ddefnyddio. Dw i ddim yn defnyddio cyflyrydd ffabrig gan ei fod yn effeithio ar amsugnedd y cewyn. Os taw gwlyb yn unig yw'r cewyn fe'i rhoddaf i olchi ar 40°C, ond os yw'r cewyn wedi'i faeddu, dw i'n rhoi'r hyn sydd ynddo i lawr y toiled ac yn rhoi'r cewyn i olchi ar 60°C. Unwaith mae'r peiriant golchi wedi gorffen dwi'n rhoi'r cewynnau i sychu y tu allan yn yr awyr agored. Mae'r cewynnau dwi'n eu defnyddio yn sychu'n gyflym, sy'n ddefnyddiol iawn pan dwi'n gorfod eu sych yn y tŷ yn ystod y gaeaf.

6. **Faint o arian ydych chi'n arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
Gwariais i tua £300 ar set o Gewynnau Go Iawn (mae hyn yn cynnwys y bwced i'w storio yn ogystal â llieiniau glanhau (wipes) y gellir eu hailddefnyddio a bag i gadw'r cewynnau brwnt pan yn mynd ar daith). Gwnaethom ni hefyd dderbyn y pecyn treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Mewn 2 flynedd a hanner mae'n debygol y bydd rhieni yn gwario £1300 ar gewynnau tafladwy ar gyfer un plentyn. Wrth gymryd hyn i ystyriaeth, dwi'n debygol o arbed £1000 mewn 2 flynedd a hanner wrth roi fy mab mewn cewynnau go iawn a chan fy mod yn defnyddio llieiniau glanhau y gellir eu hailddefnyddio dwi'n arbed hyn yn oed fwy o arian.



7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
Mae cewynnau go iawn mor hawdd i'w defnyddio, mae'r cewyn cyflawn yn ffitio'r baban o'r adeg pan fydd yn 10 pwys hyd nes ei fod yn dechrau defnyddio'r poti. Defnyddir y cewynnau yma yn union yn yr un modd â chewynnau tafladwy gan eu bod yn un darn, yr un siâp ac yn cau yn yr un modd, ar wahân i'r ffaith eu bod yn cau gan ddefnyddio felcro. Yr unig wahaniaeth arall yw fy mod i'n eu rhoi mewn bwced i'w golchi ar ôl eu defnyddio yn hytrach nag yn y bin (Mae'r baw yn cael ei olchi i lawr y toiled). Pan ddaw hi'n ddiwrnod golchi dwi'n rhoi llwyth o'r cewynnau go iawn yn y peiriant golchi. Dim ond un llwyth o olchi ychwanegol sydd gennyf!

8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
Rhowch gynnig arni, mae cewynnau go iawn wedi newid cymaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae yna nifer eang o liwiau a lluniau gwahanol i'w cael ar y cewynnau sydd ar y farchnad. Erbyn hyn mae fy mab yn mwynhau cael ei gewyn wedi'i newid gan ei fod yn e'n medru dewis pa gewyn i'w wisgo. Dwi hefyd yn gadael iddo fy helpu i roi'r cewynnau i sychu a'u rhoi i gadw yn y cwpwrdd.
Pan yn dysgu i gerdded roedd gan Dewi ddigon o badin ar ei ben ôl pan yn syrthio oddi ar ei draed!
Dwi wedi mwynhau defnyddio'r cewynnau yma, ond dwi hefyd yn teimlo fy mod yn gwneud fy rhan er mwyn edrych ar ôl yr amgylchedd.





# Cewynnau Go Iawn...

## yn amsugno llawer ac yn para'n sych drwy'r nos.

**Enw'r Rhieni: Vicki a Sean**
**Enw'r babi: Charlotte (3½) a Freyja (20 mis)**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Do, ar gyfer Charlotte yn 2012.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Ers bod Charlotte yn 7 mis oed yn Ebrill 2012.

3. **Pam ydych chi'n eu defnyddio ?**
   Maen nhw'n well i'r amgylchedd, dydy'r bin ddim yn drewi, maen nhw'n edrych yn well, yn teimlo'n fwy meddal ac maent yn well na defnyddio cewynnau tafladwy.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio ?**
   Mae'r cewynnau yn amsugno llawer ac yn para'n sych am 12 awr yn ystod y nos, pan oeddwn yn ddigon ffodus i gael plant a fyddi'n cysgu cyhyd, ac felly'n well nag unrhyw gewyn tafladwy dwi wedi'i ddefnyddio.

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn ?**
   Rwy'n eu rhoi yn sych mewn cwdyn mewn bwced, ac yn eu golchi bob yn ail ddiwrnod. Dwi'n rhoi'r cewynnau ar rins oer i ddechrau er mwyn sicrhau nad ydynt yn staenio, ac yna'n eu golchi ar dymheredd o 60°C, neu ar dymheredd o 40°C os mai gwlyb yn unig ydynt. Dwi'n defnyddio powdwr golchi o'r enw "Rocking Green" sydd wedi ei greu yn arbennig ar gyfer golchi cewynnau. Mae'r powdwr golchi yma ychydig bach yn ddrud, ond mae'n para am rai misoedd.

6. **Faint o arian wnaethoch chi arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Dwi ddim yn siŵr faint o arian rwy'n arbed. Gall y gost gychwynnol ar gyfer y cewynnau fod yn ddrud, ond mae'n bosib prynu rhai cewynnau sydd ar gael am bris rhesymol i ddechrau ac yna prynu un neu ddau gewyn yr wythnos/y mis er mwyn cynyddu'r nifer sydd gyda chi. Y peth da yw nad oes rhaid i mi dalu'n wythnosol am gewynnau tafladwy gan fod y rhan fwyaf o'r cewynnau sydd gennyf yn awr yn rhai y gwnes eu prynu ar gyfer fy mhlentyn hynaf.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Maent yn gweithio yn yr un modd â chewynnau tafladwy. Maent yr un siâp â chewynnau tafladwy ac maent yn cau gyda thabiau Velcro. Maent yn hawdd i'w rhoi ar faban ac yn aml rydych yn gallu addasu eu maint, felly does dim angen i chi brynu rhai mwy o faint pan fydd eich baban yn tyfu. Yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw newid lleoliad y botymau clecian. Unwaith y bydd y cewyn wedi'i ddefnyddio, rydych yn ei roi yn y bwced cewynnau yn barod ar gyfer ei olchi.



8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
Mae cewynnau y gellir eu golchi yn llawer gwell na chewynnau tafladwy. Maent yn edrych yn well ac maent yn well i groen eich baban. Rydw i'n defnyddio leinwyr gwlân sy'n amsugno'r gwlybaniaeth ac yn cadw eich baban yn sych.
Mae fy mhlentyn ieuaf yn dioddef llai gan frech cewyn na fy mhlentyn hynaf pan yn gwisgo cewynnau tafladwy, ond mae cewynnau go iawn yn caniatáu i groen eich baban allu anadlu fwy na phan maent yn gwisgo cewynnau tafladwy, sydd wedi'u gwneud o blastig.
Mae'r cewynnau yn hawdd i'w glanhau ac nid ydynt yn gollwng. Mae'r elastig sydd yn y cefn ac o gwmpas y coesau yn atal pob dim rhag gollwng.
Hyd yn oed os byddwch yn gwario peth arian yn prynu rhai cewynnau i ddechrau, unwaith y bydd bwndel gennych, yna ni fydd angen i chi brynu mwy ac ni fydd angen i chi ystyried prynu cewynnau fel rhan o'ch gwariant wythnosol!
Mae llawer o siopau ar-lein yn gwerthu cewynnau rhad yn ogystal â chewynnau sydd wedi'u gwneud yn arbennig ar gyfer eich plentyn a gallwch ddewis y dyluniad.
Rydym yn clywed byth a beunydd fod angen i ni feddwl am y blaned gan mai dyma ddyfodol ein plant ac mae defnyddio cewynnau y gellir eu hailddefnyddio yn ddechreuad da. Mae'r rhan fwyaf o'r cewynnau a oedd o gwmpas yn gynnar yn yr 1980au dal allan yn y môr gan fod y plastig a ddefnyddiwyd ynddynt yn cymryd gormod o amser i bydru.
Os ydych yn bwriadu cael mwy o blant, yna byddwch yn arbed hyd yn oed mwy o arian gan fod cewynnau go iawn yn para a gallant gael eu defnyddio ar fwy nag un plentyn. Gellir gael pris da am y cewynnau hefyd os byddwch yn penderfynu eu gwerthu ar ôl i chi orffen eu defnyddio.
Rydw i hefyd yn defnyddio llieiniau glanhau y gellir eu hail-ddefnyddio ac y mae hyn yn gwneud newid cewyn yn llawer haws. Does dim rhaid i mi wahanu llieiniau tafladwy oddi wrth gewynnau y gellir eu golchi ac rydych yn rhoi popeth yn y peiriant golchi dillad gyda'i gilydd. Mae llieiniau y gellir eu hail-ddefnyddio fel gwlanenni bach ac maent yn glanhau'n llawer mwy trylwyr na llieiniau tafladwy, sy'n dueddol o daenu'r baw ar hyd y croen.





# Cewynnau Go Iawn...

## yn well i'r amgylchedd ac yn well i'r baban.

**Enw'r Rhieni: John Callow**
**Enwau'r babanod: Camony, Willow, Maude a Wyn**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Naddo.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Am 20 mlynedd, er dw i ddim wedi gorfod newid cewyn yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf ers i fy mhlentyn ieuengaf fod yn ddigon hen i beidio â defnyddio cewynnau. Felly gan fod y 4 plentyn wedi bod yn defnyddio cewynnau am ryw 2 flynedd a hanner neu dair yr un, mae hyn yn cyfateb i ryw 12 mlynedd o newid cewynnau!

3. **Pam wnaethoch chi eu defnyddio ?**
   Maent yn well i'r amgylchedd, yn well i'r baban ac rydych chi'n arbed arian. Byddai pobl yn cael braw petai nhw'n gweld yr holl gewynnau y mae un baban yn eu defnyddio yn ystod ei gyfnod mewn cewynnau, yn cael eu casglu at ei gilydd ac yn cael eu rhoi yn ôl iddynt. Yn waeth fyth, nid ydynt yn diraddio, felly gallai'r baban hwnnw gael y cewynnau hynny yn ôl pan maent yn 50 oed.

4. **Beth oeddech chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio ?**
   Mae cewynnau Terry yn syml ac mae modd eu haddasu, ac wrth ddefnyddio plygiadau gwahanol mae modd eu defnyddio o'r crud i'r poti. Does dim cemegolion yn gynwysedig mewn cewynnau Terry, oni bai am y cemegolion yr ydych chi'n eu defnyddio i'w golchi. Edrychwch ar gewynnau tafladwy (er nad ydynt yn dafladwy'n go iawn) - yr holl gemegolion sydd ynddyn nhw ar gyfer amsugno'r dŵr a chael gwared ar y drewdod, a fyddech chi'n hapus i'ch baban fod yn gwisgo'r rhain?

5. **Sut oeddech chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn ?**
   Roedd gyda ni fin ar gyfer y cewynnau, felly byddai'r budreddi yn cael eu rhoi i lawr y toiled a byddai'r cewynnau yn cael eu rhoi i socian mewn bwced o ddŵr a hylif golchi cewynnau. Ar ôl socian am 24 awr neu nes bod y bwced yn llawn, byddai'r cyfan yn cael ei roi yn y peiriant golchi ar olch twym gyda phowdwr golchi arferol. Byddai'r cewynnau yn cael eu sychu yn union yr un fath â dillad arall ar y lein, ac mae'n rhaid dweud ei bod hi'n braf gweld llond lein ddillad o gewynnau glân.

6. **Faint o arian wnaethoch chi arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Does gen i ddim syniad, ond mae'n rhaid ein bod wedi arbed cannoedd o bunnoedd gan fod y cewynnau Terry wedi cael eu defnyddio gan y pedwar plentyn, ac maent yn awr yn yr atig yn disgwyl i'r wyrion gyrraedd. Bu'n rhaid i ni brynu rhagor o orchuddion gwrth-ddŵr gan eu bod wedi rhwygo, ond gwnaethant gostio llai nag £20 y plentyn i ni. Fodd bynnag, dylid edrych ar y gost hefyd yn nhermau faint o arian a arbedwyd wrth beidio ag anfon gwastraff i safle tirlenwi.



7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Syml iawn, unwaith y byddwch wedi dysgu sut i'w plygu. Does dim angen defnyddio pinnau chwaith, felly mae'n lleihau'r risg o bigo eich hun neu'r baban, gallwch yn awr ddefnyddio gripiau plastig.

8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
   Rhowch gynnig arni, mae unrhyw beth y gwnewch chi yn well na gwneud dim byd. Yn achlysurol efallai ei bod yn haws defnyddio cewynnau tafladwy, er enghraifft wrth fynd ar dripiau. Mae fy mhrofiadau o ddefnyddio cewynnau go iawn wedi bod yn bositif ac mae pobl arall wedi bod yn gefnogol iawn. Prynwch drowseri neu ddillad sydd ychydig yn fwy o ran maint, gan fod y dillad modern yn tueddu i fod yn gul ac yn anaddas ar gyfer siâp cewyn go iawn, ond gyda mwy o bobl yn eu defnyddio, gobeithio y bydd y broblem hon yn diflannu.  Pob lwc.





# Cewynnau Go Iawn...

## helpu i ddysgu plentyn i fynd i'r toiled yn gynt.

**Enw'r Rhieni: Mr John a Mrs Lynda Williams**
**Enw'r babi: Emily Rose (ganed yn 2002), Charlie (ganed yn 2004) ac Ollie Williams (ganed yn 2011)**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Dim gyda'r plentyn cyntaf, ond derbyniais becyn treialu gyda'r ddau blentyn arall.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Ers 2002.

3. **Pam ydych chi'n eu defnyddio ?**
   Nid yw cewynnau tafladwy yn pydru'n gyflym iawn ac maent yn ddrud i'w prynu.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio ?**
   Y buddion i'r amgylchedd, rydych yn arbed arian ac yn fy mhrofiad i mae defnyddio cewynnau go iawn yn helpu i ddysgu'r plentyn i fynd i'r toiled yn gynt, gan eu bod yn gallu teimlo pan mae'r cewyn yn wlyb.

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn ?**
   Ro'n i'n defnyddio leinwyr bioddiraddadwy, y gellid eu rhoi i lawr y toiled. Yna ro'n i'n rhoi'r cewynnau mewn bwced nes ei fod yn amser i'w golchi yn y peiriant. Ro'n i'n hoff o sychu'r cewynnau ar hors dillad, ond mae modd i chi eu rhoi yn y peiriant sychu dillad os ydych yn dymuno (oni bai fod ganddynt leinin gwrth-ddŵr sy'n dirywio yn y sychwr dillad).

6. **Faint o arian wnaethoch chi arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Gwariais tua £180.00 wrth brynu'r cewynnau go iawn. Defnyddiais yr un cewynnau ar y 3 plentyn, sy'n golygu fy mod wedi arbed llawer o arian o'i gymharu â defnyddio cewynnau tafladwy!! Yr unig gostau ychwanegol oedd bwced ar gyfer y cewynnau (cwpwl o bunnoedd), a defnyddiais hwn gyda'r tri phlentyn a'r gost o brynu leinwyr y gellid eu rhoi i lawr y toiled am £3 y rholyn.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Teimlais eu bod yn hawdd iawn i'w defnyddio. Prynais sgwariau Terry, gan fy mod yn eu ffafrio, oherwydd eich bod yn gallu gwneud cewynnau o unrhyw faint. Roedd yn dipyn o help gyda fy 2 blentyn cyntaf gan eu bod wedi eu geni yn eithaf bach (6 pwys 1 owns a 6 pwys 9 owns) felly roedd modd i chi blygu'r cewynnau i'w ffitio nhw. Prynais 2 faint gwahanol gan ddefnyddio'r sgwariau llai o faint fel padin ychwanegol wrth i'r babi dyfu. Unwaith y byddai'r sgwariau Terry yn dod allan o'r golch byddwn yn eu plygu yn barod i'w defnyddio ar unrhyw adeg. Gwnes i hefyd ddefnyddio'r cewyn wedi'i siapio, a oedd yn dod yn rhan o'r pecyn treialu gan y Cyngor Sir. Byddai gorchudd gwrth-ddŵr yn mynd dros ben y cewynnau hyn.



8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
Rhowch gynnig arni! Does dim i'w golli, ond gallwch chi (a'r amgylchedd) elwa llawer. Mae'r gost dipyn yn llai a bydd hyfforddi'r plant i fynd i'r toiled yn waith llawer haws. Roedd fy mhlant i gyd allan o gewynnau (ddydd a nos) erbyn eu bod yn ddwy flwydd a hanner. Mae hi'n llawer mwy derbyniol i ddefnyddio cewynnau go iawn erbyn hyn, ac mae bron pob meithrinfa a gofalwyr plant yn hapus i'w defnyddio ar eich plant. Pan fyddwch wedi gorffen defnyddio cewynnau, gallwch eu rhoi i rywun arall i'w defnyddio, fel eu bod nhw hefyd yn medru elwa ohonynt.





# Cewynnau Go Iawn...

## yn edrych llawer mwy cyfforddus na chewynnau tafladwy.

**Enw'r Rhieni: Gemma a Jon Griffiths**
**Enw'r babi: Frederick-James**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Ni wnaethom archebu'r pecyn treialu er ein bod wedi derbyn taflen wybodaeth. Roeddwn yn 'nabod nifer o famau a oedd yn neu wedi defnyddio cewynnau go iawn, felly gofynnais iddyn nhw am gyngor.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Dechreuon ni ddefnyddio'r cewynnau go iawn ychydig ddyddiau'r wythnos pan oedd ein babi yn dri mis oed. Unwaith y daethom o hyd i'r dull gorau ar ein cyfer ni, dechreuon ni ddefnyddio'r cewynnau bob dydd (tua mis oed). Mae Freddie yn awr yn 8 mis oed ac yn dod ymlaen yn dda.

3. **Pam ydych chi yn ei ddefnyddio?**
   Ein prif ysgogiad i ddefnyddio cewynnau go iawn oedd arbed arian tra fy mod ar gyfnod mamolaeth, ond mae'r ffaith eu bod yn well i'r amgylchedd hefyd yn ysgogiad mawr arall.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio?**
   Maent yn edrych yn llawer mwy cyfforddus na chewynnau tafladwy. Pan oedd Freddie yn ifanc iawn roedd rhai o'r cewynnau yn edrych yn swmpus iawn arno fe, ond roedd e dal yn gallu symud a rholio o amgylch y lle.

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn?**
   Mae gennym fag gwrth-ddŵr i roi'r cewynnau brwnt ynddo, ac mae'r bag yn cael ei wagio i mewn i'r peiriant golchi bob yn ail ddiwrnod. Rydym hefyd yn defnyddio leinwyr gwlân yn hytrach na'r rhai tafladwy, gan fod Freddie yn dueddol o gael brech y clwt wrth ddefnyddio rhai tafladwy. Mae'r cewynnau yn sychu'n gyflym ac mae'r leinwyr yn dod allan o'r peiriant golchi yn sych, sy'n grêt pan fod angen eu defnyddio'n syth.

6. **Faint o arian ydych chi'n arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Rydym yn dal i ddefnyddio cewynnau tafladwy dros nos, felly mae hyn yn golygu fod un pecyn o gewynnau tafladwy yn para dros fis ac mae modd eu prynu pan mae cynigion arbennig ar gael. Rydym wedi cael y rhan fwyaf o'r cewynnau go iawn sydd gennym gan ffrindiau, sydd wedi eu defnyddio ar eu plant nhw yn y gorffennol, ac nid ydynt eu hangen mwyach. Felly'r unig beth oedd angen i ni ei brynu yn ychwanegol oedd gorchuddion gwrth-ddŵr a leinwyr. Yn ddiweddar gwnes i ddod ar draws cewynnau cyflawn yn cael eu gwerthu ym Morrisons, felly dwi wedi ychwanegu'r rhain at fy nghasgliad o Gewynnau Go Iawn. 'Bambino Mio' yw'r cewynnau hyn ac maent yn hawdd iawn i'w defnyddio. Yr unig beth ychwanegol sydd ei angen arnoch yw leinwyr. Rydym wedi gwario tua £35 arnynt yn gyfan gwbl. Rydym yn gobeithio cael rhagor o blant felly byddwn yn arbed cannoedd o bunnoedd yn y pen draw.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Rwy'n hoff iawn o'u defnyddio. Yr unig beth sy'n gallu bod yn lletchwith yw gorfod mynd i'r ystafell ymolchi er mwyn cael gwared y leiniwr i lawr y toiled. Ond erbyn hyn, dwi'n eu rhoi i'r naill ochr nes fy mod wedi gorffen newid y cewyn ac wedi rhoi Freddie yn ôl yn ddiogel yn y crud, cyn cael gwared ar y gwastraff.



8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
   Dwi wedi mwynhau defnyddio'r cewynnau go iawn, ac yn edrych ymlaen at eu defnyddio yn ystod yr haf, pan fydd Freddie yn fwy cyfforddus wrth beidio â gorfod gwisgo plastig a chemegolion o amgylch ei ben-ôl. Bydd Freddie hefyd yn edrych yn ciwt wrth ddechrau cropian o amgylch y lle yn ei gewynnau ffasiynol. Os nad oes cewynnau gennych yn barod, fy nghyngor i yw i chi brynu un o'r sawl gwahanol fath o gewynnau sydd ar gael, er mwyn gweld pan un sy'n gweithio orau i chi, cyn mynd ati i brynu mwy ohonynt. Ceir llawer o gyngor ar y we, ond y ffordd orau i gael cyngor yw wrth siarad â ffrind neu riant arall sy'n defnyddio cewynnau go iawn, neu wrth dreialu'r cewynnau eich hunan.





# Cewynnau Go Iawn...

## yn aros yn feddal a chyfforddus.

**Enw'r Rhieni: Ben ac Emma Sampson**
**Enwau'r babanod: Oscar a Polly**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Do.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   O'r adeg y cafodd y plant eu geni hyd nes eu bod wedi dysgu defnyddio'r poti (tua 3 mlynedd), ac wedi defnyddio cewynnau tafladwy yn achlysurol.

3. **Pam ydych chi yn ei ddefnyddio?**
   Pryderon am yr amgylchedd, er mwyn lleihau gwastraff ac arbed arian.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio?**
   Hawdd i'w defnyddio, rydym yn arbed arian a does dim gwastraff yn cael ei anfon i

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn?**
   Yn y peiriant golchi ar dymheredd o 60°C.

6. **Faint o arian ydych chi'n arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Dwi ddim yn siŵr beth yw'r union gost o ddefnyddio cewynnau tafladwy, ond wrth amcangyfrif cost o 50c y dydd am ryw 900 o ddiwrnodau ar gyfer cewynnau tafladwy i bob plentyn, mae hyn yn rhoi cyfanswm o £900. Wrth gwrs, bydd arian ychwanegol yn cael ei wario ar olchi'r cewynnau go iawn, tua thri llwyth o olchi yr wythnos, ond ni wnaethom eu sychu mewn peiriant sychu dillad. Gwnaethom wario tua £200 wrth brynu set o gewynnau go iawn ynghyd â'r gorchuddion gwrth-ddŵr, gan ddefnyddio'r un set ar gyfer y ddau blentyn, felly rydym wedi arbed cannoedd o bunnoedd yn y pen draw. Defnyddion ni gewynnau tafladwy yn achlysurol er cyfleustra, er enghraifft wrth fynd ar deithiau hir – rhag gorfod cario cewynnau brwnt ar ein taith.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Hawdd iawn. Defnyddion ni gewynnau Tots Bots Fluffles sydd wedi eu gwneud o wlân, sydd wedi'u siapio ac sy'n cau wrth ddefnyddio teclyn gafael (nappy nipper), gyda gorchudd gwrth-ddŵr yn cael ei wisgo dros y cyfan. Roedd modd eu haddasu, felly roeddynt yn addas o'r crud i'r poti, ond wedyn dechreuon ni ddefnyddio "Pull-ups" fel bod y plant yn medru defnyddio'r poti ar eu pennau eu hunain. Arhosodd y cewynnau yn feddal a chyfforddus ar gyfer y ddau blentyn ac rydym yn awr wedi eu rhoi i ffrindiau i'w defnyddio ar gyfer eu plant nhw.

8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
   Os yw sychu'r cewyn yn broblem, rwy'n argymell defnyddio cewynnau gwlân gan eu bod yn sychu'n gyflym iawn. Gall cewynnau cotwm a bambŵ gymryd amser hir i sychu heb eu rhoi mewn peiriant sychu dillad.

# Cewynnau Go Iawn...

## lleihau gwastraff ac arbed arian.



**Enw'r Rhieni: Kate a Lawrence Martin**
**Enw'r babi: Ellen**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Do.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Am saith wythnos.

3. **Pam ydych chi yn ei ddefnyddio?**
   Am fod gennym faban. Rydym eisiau lleihau gwastraff ac arbed arian, ac rydym yn hoffi teimlad y cewynnau. Teimlwn hefyd mai nhw sy'n gweithio orau rhag gollwng.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio?**
   Cyfleustra (os oes gyda chi drefn olchi dda). Maen nhw hefyd yn feddal. A does dim costau (ond nid ydym erioed wedi defnyddio cewynnau tafladwy beth bynnag, felly nid ydym yn ymwybodol o'r costau wythnosol o'u prynu).

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn?**
   Eu cadw mewn bwced (sych), ac wedyn eu golchi ar olch hir gyda rins ychwanegol yn y peiriant golchi. Rydym yn eu sychu ar y lein ddillad neu uwchben y *Rayburn*. Ambell waith gwnawn eu rhoi yn y sychwr dillad am ychydig funudau i sicrhau eu bod yn hollol sych a chras.

6. **Faint o arian ydych chi'n arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Ni fyddem yn gwybod (dydyn ni ddim yn gwybod beth yw cost cewynnau tafladwy). Ond rydym yn gwario arian wrth olchi'r cewynnau a'u prynu yn y lle cyntaf.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Hawdd iawn os oes trefn olchi dda gyda chi.

8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
   Rhowch gynnig arni. Yn bendant, ni fyddem bellach eisiau defnyddio cewynnau tafladwy yn eu lle.



# Cewynnau Go Iawn...

## yn gwneud yn siwr fod y plant yn rhydd rhag cemegolion.

**Enw'r Rhieni: Chris Richards a Jade Wright**
**Enwau'r babanod: Eden a Niall**

1. **A wnaethoch chi dderbyn Pecyn o Gewynnau Go Iawn i'w treialu oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion?**
   Do, gyda'r ddau blentyn.

2. **Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio Cewynnau Go Iawn?**
   Ers 3 blynedd

3. **Pam ydych chi yn ei ddefnyddio?**
   Am fod fy merch yn methu â gwisgo cewynnau tafladwy ac i wneud yn siŵr fod y plant yn rhydd rhag cemegolion.

4. **Beth ydych chi'n ei hoffi orau am eu defnyddio?**
   Does dim byd negyddol yn eu cylch ac maent yn dda i'r amgylchedd.

5. **Sut ydych chi'n glanhau'r Cewynnau Go iawn?**
   Yn y peiriant golchi gan ddefnyddio '*Eco Egg'.*

6. **Faint o arian ydych chi'n arbed (o'i gymharu â phrynu cewynnau tafladwy)?**
   Tua £10 yr wythnos o'i gymharu â defnyddio cewynnau tafladwy.

7. **Pa mor syml ydyn nhw i'w defnyddio?**
   Hawdd iawn.

8. **Unrhyw gyngor i annog rhieni eraill i'w defnyddio?**
   Rhowch gynnig arni, fe wnaethom ni, gan feddwl na fyddem yn hoffi eu defnyddio, ond nid dyna'r gwir o gwbl! Gwnewch lawer o waith ymchwil ar y manteision a'r anfanteision o ddefnyddio'r ddau fath o gewynnau, ac rwy'n siŵr y byddwch yn newid eich meddwl yn go fuan ac yn dewis cewynnau go iawn.



Os hoffech chi gymryd rhan yn yr astudiaeth achos ar gyfer cewynnau go iawn cysyllwych â ni:

☎ 01545 572572

peg@ceredigion.gov.uk

Astudiaeth Achos Cewynnau Go Iawn,
Neuadd y Sir,
Stryd y Farchnad,
Aberaeron,
SA46 0AT

Barn a safbwyntiau'r unigolion a gymerodd ran yn yr astudiaethau, a fynegwyd yn yr astudiaethau achos hyn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu polisi neu safiad swyddogol Cyngor Sir Ceredigion.



2015

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

ailgylchu dros Geredigion
recycle for Ceredigion
www.ceredigion.gov.uk